Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## 1192 Laser & Beauty Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 22 Gorffennaf 2025
Dyddiad cyhoeddi: 22 Hydref 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80633-583-1
© Hawlfraint y Goron 2025

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8

   - Ansawdd Profiad y Claf ........ 8
   - Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 11
   - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 14

4. Y camau nesaf ........ 15

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 16

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 17

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 18

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o 1192 Laser & Beauty Clinic ar 22 Gorffennaf 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan ddau arolygydd gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 13 o holiaduron gan gleifion. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod cleifion yn cael lefel dda o ofal yn 1192 Laser & Beauty Clinic. Roedd trefniadau cadarn ar waith i gefnogi preifatrwydd ac urddas y cleifion yn llawn, gan roi sylw dyledus i'w cydraddoldeb a'u hawliau. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn y lleoliad yn rhoi gwybodaeth glir a chryno iddynt cyn, yn ystod ac ar ôl triniaeth. Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel cleifion. Roedd y systemau a oedd ar waith i gofnodi ac ymateb i adborth gan gleifion yn foddhaol ac roedd y trefniadau ar gyfer cynllunio gofal yn cael eu rheoli'n dda yn y lleoliad.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl adborth a gawsom gan gleifion yn gadarnhaol
- Roedd hanesion meddygol a newidiadau i amgylchiadau yn cael eu trafod cyn i gleifion gael unrhyw driniaeth.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr ar waith i reoli'r risg o niwed i'r cleifion a darparu gofal mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Roedd y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn cael eu rheoli mewn ffordd gadarn ac roedd cydymffurfiaeth y gwasanaeth â gofynion rheoleiddio yn addas. Roedd gan y lleoliad gydberthynas waith dda â'i Gynghorydd Diogelu rhag Laserau, a oedd o fudd i gleifion a'r staff. Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cael eu trin a'u cwblhau'n gywir a'u storio mewn system ddigidol ddiogel.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar laser
- Roedd y trefniadau ar gyfer cadw cofnodion yn gadarn.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y trefniadau arwain a rheoli a oedd ar waith yn foddhaol. Roedd polisïau clir a chynhwysfawr ar waith i roi canllawiau i'r staff, gan gynnwys polisi cwynion a pholisi hyfforddiant. Gwelwyd bod y prosesau ar gyfer sefydlu a datblygiad proffesiynol parhaus yn briodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl gofnodion staffio y gwnaethom edrych arnynt yn gyflawn
- Roedd y systemau a oedd ar waith i gofnodi ac ymateb i adborth a chwynion gan gleifion yn briodol.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

# Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a'r sylwadau yn gadarnhaol. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' (13/13). Ymhlith rhai o'r sylwadau a gawsom roedd y canlynol:

> *"O'r tro cyntaf i mi ddod yma, [roedd] y staff yn wych ac o gymorth mawr o ran y gwasanaeth a'r wybodaeth. Byddwn [yn bendant] yn ei argymell"*

> *"Mae'r holl staff yn broffesiynol – rydych chi'n teimlo'n hamddenol ac yn gyfforddus bob amser fel cleient"*

> *"Staff llawn gwybodaeth sy'n gyfeillgar iawn ac ni wnaethant wneud i mi deimlo'n anghyfforddus o gwbl"*

> *"Staff caredig a gofalgar sydd o gymorth mawr bob amser"*

> *"Roedd y staff i gyd yn gynnes ac yn groesawgar a gwnaethant roi tawelwch meddwl i mi. Roeddwn yn teimlo'n gyfforddus a fy mod yn cael gofal da, profiad nad ydw i wedi'i gael mewn mannau eraill. Awyrgylch cyfeillgar wrth barhau i fod yn broffesiynol"*

### Urddas a pharch

Roedd ymgyngoriadau a thriniaethau yn cael eu cynnal mewn ystafelloedd preifat yn y lleoliad. Roedd gan yr ystafelloedd ddrysau solet heb ffenestri, a oedd yn cael eu cloi yn ystod apwyntiadau. Roedd tywel urddas yn cael ei ddefnyddio yn ystod triniaethau er mwyn diogelu preifatrwydd y claf yn ystod triniaethau. Roedd pob un o'r mesurau hyn yn helpu i sicrhau bod preifatrwydd y cleifion yn cael ei gynnal yn ystod eu taith fel claf.

Gellid caniatáu i hebryngwyr ddod i'r ystafell drin, pe gofynnwyd am hynny. Roedd pâr ychwanegol o sbectolau amddiffynnol ar gael er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch, bod mesurau wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd a bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod eu triniaethau.

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**

Roedd ffyrdd iach o fyw yn cael eu hyrwyddo i'r cleifion a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys trafodaethau am groen iach a diogelwch rhag golau uwchfioled cyn ac ar ôl triniaeth. Roedd gwybodaeth hybu iechyd hefyd ar gael ar wefan y lleoliad, yr oedd y staff yn cyfeirio cleifion ati. Dywedodd un o'r ymatebwyr i holiadur cleifion AGIC:

> *"Mae'r staff yn wybodus iawn ac maent wedi argymell triniaethau a chynhyrchion sydd wedi gwella fy nghroen yn sylweddol!"*

Gwnaethom edrych ar gofnodion pum claf yn ystod ein harolygiad ac roedd pob un o'r cofnodion hyn yn cynnwys tystiolaeth o ffurflen ymgynghori wedi'i llofnodi a oedd wedi'i chwblhau cyn cynnal unrhyw driniaeth. Roedd cydsyniad ar sail gwybodaeth hefyd wedi cael ei nodi ar gyfer pob triniaeth yn y cofnodion a welsom. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn rhoi cydsyniad wedi'i lofnodi cyn cael pob triniaeth ac roedd y mwyafrif yn cytuno bod y costau yn glir. Roedd costau triniaethau wedi'u cynnwys ar wefan y practis ac yn cael eu darparu i gleifion cyn i'r claf gael cwrs o driniaeth.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys y risgiau, y dewis o wahanol driniaethau, a'r gwasanaethau ôl-ofal. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys a bod y staff yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau. Dywedodd un claf wrthym:

> *"Yn cael gwybodaeth dda bob amser cyn cael triniaeth"*

**Cyfathrebu'n effeithiol**

Gwelsom fod gwybodaeth addas yn cael ei rhoi i gleifion ar bob cam o'u triniaeth. Roedd y rhan fwyaf o wybodaeth a oedd ar gael i gleifion yn uniaith Saesneg. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Dywedodd y staff wrthym y byddai unrhyw glaf sy'n dymuno sgwrsio mewn iaith arall yn dod â pherthynas neu gyfieithydd gydag ef neu'n defnyddio adnoddau cyfieithu ar-lein.

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion y lleoliad ar gael i'r cleifion ar gais.

Yn gyffredinol, roedd cleifion yn trefnu apwyntiadau ar-lein drwy wefan y practis neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, gallai'r cleifion hynny nad oedd ganddynt fynediad digidol drefnu apwyntiadau neu gael ymgynghoriad dros y ffôn. Dywedodd un claf:

> *"Mae'n hawdd iawn trefnu apwyntiadau"*

### Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych ar gofnodion pum claf yn ystod yr arolygiad a gwnaethom nodi bod trefniadau cynllunio a darparu gofal clir ar waith. Roedd y cofnodion yn dangos bod hanes meddygol yn cael ei wirio cyn pob triniaeth a bod y staff yn cynnal prawf croen ar ddechrau pob cwrs o driniaeth, lle y bo'n gymwys. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn iddynt gael triniaeth. Dywedodd yr holl gleifion a gafodd driniaeth lle roedd angen prawf croen arnynt, eu bod wedi cael prawf croen. Cadarnhaodd y cleifion hefyd eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir a chanllawiau ar yr hyn y dylent ei wneud mewn argyfwng.

### Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth priodol ar waith, ochr yn ochr â ffyrdd addas o amddiffyn y staff a'r cleifion rhag gwahaniaethu. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethom nodi enghreifftiau boddhaol o'r ffordd roeddent yn trin cleifion yn gyfartal ac yn cynnal eu hawliau. Roedd hawliau cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy eu galluogi i ddewis y rhagenwau a'r enwau a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion.

### Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Gwelsom fod systemau cadarn ar waith i ofyn am adborth ac ymateb iddo. Roedd y gwasanaeth yn cysylltu'n awtomatig â chleifion ar ôl eu hapwyntiad i ofyn am adborth ysgrifenedig, ac roedd hefyd yn casglu ac yn cofnodi adborth ar lafar. Esboniodd y staff pan fydd y gwasanaeth yn ystyried cyflwyno triniaeth newydd, byddai'n holi barn y cleifion er mwyn llywio'r gwasanaethau a ddarperir. Roedd pob darn o adborth gan gleifion yn cael ei adolygu gan y staff yn syth, ac roedd trosolwg cyffredinol yn cael ei gynnal bob blwyddyn er mwyn nodi tueddiadau neu themâu allweddol. Roedd adborth gan gleifion yn cael ei gyhoeddi ar-lein er mwyn codi ymwybyddiaeth gyffredinol.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Yr Amgylchedd, Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Gwelsom fod amgylchedd diogel yn y lleoliad. Roedd y lleoliad hwn yn rhan o stadiwm chwaraeon a oedd yn elwa ar drefniadau diogelwch cynhwysfawr y stadiwm, gan gynnwys swyddogion diogelwch 24 awr a chyfres o gamerâu teledu cylch cyfyng. Gwelsom fod yr ystafelloedd a oedd yn cael eu defnyddio i storio'r peiriannau laser yn cael eu cloi gan yr ymarferwyr pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Gwelsom fod yr adeilad yn lân ac nad oedd unrhyw annibendod na pheryglon neu risgiau amlwg. Roedd yr holl dystysgrifau diogelwch ar gyfer gwifrau trydanol a phrofion offer cludadwy ar gael ac roedd y rhagofalon diogelwch tân wedi'u hamlinellu mewn polisi dynodedig. Gan mai lleoliad ar y cyd â Stadiwm Pêl-droed Abertawe oedd hwn, roedd y trefniadau iechyd, diogelwch a thân yn cael eu cydlynu â'r stadiwm. Gwelsom fod yr holl drefniadau hyn yn addas.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'r hyn y dylid ei wneud mewn argyfwng. Roedd pecyn cymorth cyntaf y lleoliad yn addas at y diben ac roedd yr holl eitemau ynddo yn gyfredol. Gwelsom fod pob gweithredwr laser wedi cwblhau cwrs hyfforddiant cymorth cyntaf.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Roedd prosesau cadarn ar waith i lanhau a dihalogi'r ardaloedd trin a'r cyfarpar yn effeithiol. Roedd rhestrau gwirio yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith glanhau ac roedd y rheolwyr yn cwblhau archwiliadau. Gwelsom fod menig yn cael eu gwisgo yn ystod triniaethau ac roedd y staff yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl triniaethau fel mater o drefn. Roedd y prosesau atal a rheoli heintiau a dihalogi wedi'u nodi'n addas ym mholisi rheoli heintiau'r lleoliad. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei drin yn gywir a'i waredu drwy gontract trin gwastraff gyda'r stadiwm.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn 'lân iawn'. Dywedodd un claf:

> *"Mae'r lleoliad yn lân ac yn daclus iawn. Mae'r staff yn gyfeillgar, yn gwrtais ac yn barod eu cymwynas bob amser"*

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**
Roedd gan y lleoliad bolisi diogelu addas ar waith, a oedd yn gyfredol ac yn cynnwys manylion y tîm diogelu lleol. Roedd y polisi yn nodi'n glir y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai pryder am ddiogelu.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant lefel dau ar ddiogelu oedolion. Nid oedd unrhyw driniaethau'n cael eu rhoi i unrhyw un dan 18 oed.

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**
Gwelsom fod y dyfeisiau yn y lleoliad yn cael eu defnyddio'n ddiogel ac yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Roedd contract addas ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau ardystiedig. Gwelsom gofnodion o adolygiadau blynyddol o'r lleoliad gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ac roedd adroddiad cynhwysfawr yn cael ei lunio, a oedd yn cynnwys asesiad risg. Gwelsom mai'r tro diwethaf y gwnaeth y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ymweld â'r lleoliad oedd ym mis Mawrth 2025. Wrth edrych ar sampl o'r ddogfennaeth ar gyfer dau o'r peiriannau laser, gwelsom fod protocolau triniaeth unigol ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriannau laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu creu a'u cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol fel rhan o gontract y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau.

Roedd y rheolau lleol ar gyfer y lleoliad yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol yn ymwneud â phob peiriant. Roedd pob aelod o'r staff wedi llofnodi i gytuno i'r rheolau lleol.

Roedd yr ystafelloedd dynodedig ar gyfer triniaethau laser yn cael eu cloi pan nad oeddent yn cael eu defnyddio, ac roedd yr allweddi ar gyfer pob dyfais yn cael eu storio'n ddiogel gan weithredwyr laser y lleoliad. Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar y peiriannau laser, ynghyd â gwiriadau calibradu cyn pob triniaeth. Roedd y cofnodion gwasanaethu ar gyfer y ddau beiriant y gwnaethom eu harchwilio yn foddhaol. Roedd sbectolau amddiffynnol ar gael yn hawdd, roeddent mewn cyflwr da yn ôl pob golwg ac yn bodloni'r rheolau lleol.

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**
Gwelsom fod triniaethau yn cael eu rhoi yn ddiogel ac yn effeithiol yn y lleoliad. Roedd pob gweithredwr laser wedi cael hyfforddiant cyfredol, gan gynnwys hyfforddiant craidd gwybodaeth.

Roedd dwy ystafell yn cael eu defnyddio ar gyfer triniaethau laser yn y lleoliad. Gellid cloi'r ddwy ystafell ac roedd arwyddion priodol ar y drws i ddangos bod triniaethau laser yn cael eu cynnal yn yr ystafell. Roedd yr arwyddion hefyd yn nodi na ddylid mynd i mewn i'r ystafell pan fyddai triniaethau yn cael eu rhoi.

Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion fod pob claf yn ein sampl wedi cael prawf croen a bod cydnawsedd ei groen wedi cael ei brofi cyn iddo gael ei gwrs o driniaethau.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei adolygu a'i drafod yn rheolaidd yn y lleoliad er mwyn llywio gwelliant parhaus. Roedd archwiliadau glanhau a hylendid yn cael eu cynnal ym mhob rhan o'r lleoliad, ochr yn ochr ag archwiliadau o gofnodion cleifion ym mhob cylch triniaeth.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gallai'r lleoliad ddarparu datganiad blynyddol i AGIC ar gais.

**Rheoli cofnodion**

Gwelsom dystiolaeth o brosesau cadw cofnodion da yn y sampl o bum cofnod a welsom. Roedd yr holl gofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn gyflawn ac yn gynhwysfawr. Roedd y cofnodion i gyd yn ddigidol ac yn cael eu storio'n ddiogel yn unol â'r rheoliadau diogelu data. Gwelsom dystiolaeth bod yr holl gofnodion yn cael eu gwaredu'n ddiogel, pan fo angen.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Roedd y trefniadau llywodraethu a oedd ar waith yn y lleoliad hwn yn addas. Rheolwr y lleoliad oedd y pwynt cyswllt ar gyfer pob mater yn ymwneud â staffio a gwelsom fod yr unigolyn yn hyderus yn ei rôl. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn cael eu defnyddio i drafod ffyrdd newydd o weithio neu gyflwyno gweithdrefnau newydd.

Gwnaethom nodi bod tystysgrifau AGIC ar gyfer y lleoliad yn cael eu harddangos ar y wal yn y dderbynfa ac roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd y cyflogwr yn cael ei harddangos hefyd.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Roedd rheolwr y lleoliad yn goruchwylio cwynion gan gleifion. Roedd y weithdrefn gwyno y gwnaethom edrych arni yn briodol, yn gyfredol ac yn cyfeirio at AGIC fel ffordd o uwchgyfeirio pryderon. Nid oedd unrhyw gwynion i ni eu hadolygu yn ystod yr arolygiad, ond rhoddodd y broses gwyno a oedd ar waith sicrwydd i ni. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw gwynion yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff a byddai unrhyw gwynion ar lafar yn cael eu nodi yn y llyfr cwynion.

**Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**
Gwelsom drefniadau addas i recriwtio a sefydlu unrhyw aelodau newydd o staff, gan gynnwys llyfryn 3 mis manwl i'w gwblhau. Roedd y lleoliad yn defnyddio gwasanaeth diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn sicrhau bod tystysgrifau'r staff yn gyfredol.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn gwirio cofnodion aelodau unigol o'r staff yn flynyddol i sicrhau bod yr holl wiriadau a threfniadau addasrwydd i weithio ar waith.

**Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**
Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion tri aelod o'r staff a gwelsom fod yr holl staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf sy'n berthnasol i'w rolau. Roedd gan yr holl staff gofnodion cyfredol yn ymwneud â'u gwiriadau cyn cyflogi a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd hefyd. Er nad oedd manylion cyn cyflogi dau aelod o'r staff ar gael yn ystod yr arolygiad, cawsant eu hanfon i AGIC yn syth ar ôl yr arolygiad. Roedd geirdaon coll yn destun asesiad risg addas, ac roedd y gwiriadau hyn yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff mwy newydd.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** 1192 Laser & Beauty Clinic

**Dyddiad yr arolygiad:** 22 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn | | | | | |

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** 1192 Laser & Beauty Clinic

**Dyddiad yr arolygiad:** 22 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw welliannau yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | | |